

# DATHLU' N DDIOGEL

**South Wales**
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
**De Cymru**

GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL**

# Tân Gwyllt

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn argymell eich bod yn mynd i arddangosfa wedi'i threfnu bob amser.

**Cofiwch wneud y canlynol:**

- Cadw bwced o ddŵr gerllaw.
- Storio tân gwyllt mewn blwch wedi'i gau a'u tynnu allan un ar y tro.
- Dilyn y cyfarwyddiadau ar bob tân gwyllt unigol. Defnyddio fflach-lamp i ddarllen y cyfarwyddiadau nid fflam noeth.
- Cynnau'r tân gwyllt ar hyd braich gan ddefnyddio'r tapr a ddarperir.
- Sicrhau bod pawb yn sefyll yn ddigon pell yn ôl oddi wrth y tân gwyllt.
- Goruchwylio plant ar bob achlysur wrth drin tân gwyllt a pheidio rhoi ffyn gwreichion i blant o dan bump oed ar unrhyw achlysur.
- Cynnau ffyn gwreichion un ar y tro a gwisgo menig.
- Cadw anifeiliaid anwes dan do.
- Prynu tân gwyllt sydd â BS7114 neu CE arnynt yn unig.

**Peidiwch â:**

- Dychwelyd at dân gwyllt sydd eisoes wedi'i gynnau - hyd yn oed os nad yw wedi tanio, gallai ffrwydro o hyd.
- Taflu tân gwyllt neu eu rhoi nhw yn eich poced.
- Yfed alcohol os ydych yn cynnau tân gwyllt.
- Defnyddio paraffin neu betrol ar goelcerth.

British Standard Kitemark

**Awgrym da**






**Peidiwch byth â dychwelyd at dân gwyllt wedi i chi eu cynnau**

# Dathliadau’r Nadolig

**Cofiwch wneud y canlynol:**

- Gwirio bod eich goleuadau Nadolig yn arddangos yr arwydd Safon Prydeinig (BS) a newid unrhyw fylbiau sy’n chwythu.
- Sicrhau bod unrhyw ymwelwyr neu aelodau o’ch teulu ehangach yn ymwybodol o’r ffordd orau o ddianc mewn argyfwng.
- Diffodd eich goleuadau Nadolig a thynnu’r plwg cyn gadael y tŷ neu fynd i’r gwely.
- Gwirio batris eich larwm mwg bob wythnos. Peidiwch byth â’u tynnu allan.
- Cymryd yr amser i ymweld â pherthnasau a chymdogion oedrannus dros y Nadolig gan eu bod nhw yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan dân.

**Peidiwch â:**

- Gosod canhwyllau yn agos at eich coeden Nadolig neu ddeunyddiau sy’n gallu mynd ar dân yn hawdd.
- Cysylltu addurniadau wrth oleuadau neu wresogyddion gan eu bod nhw’n gallu llosgi’n gyflym.
- Gadael bwyd yn coginio heb neb yn gofalu amdano.
- Gadael i fylbiau’r goleuadau ar eich coeden Nadolig gyffwrdd ag unrhyw beth sy’n gallu llosgi’n hawdd, fel papur neu ddeunyddiau.




Datgysylltu plwg goleuadau bach




Profi bob amser



# Llusernau Papur (Tsieineaidd)

Nid ydym yn argymell defnyddio llusernau papur. Maen nhw'n gallu achosi tân i eiddo, cnydau, cerbydau ac anifeiliaid yn ogystal â gwneud niwed i'r amgylchedd. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu defnyddio llusernau papur, ystyriwch y cyngor canlynol.

**Cofiwch wneud y canlynol:**

- Sicrhau bod yr ardal lansio yn glir o ddeunyddiau fflamadwy.
- Lansio llusernau i ffwrdd oddi wrth rwystrau megis coed, gwifrau trydan neu ffôn ac adeiladau.
- Gwirio cyfeiriad a chyflymder y gwynt cyn lansio'r llusernau.

**Peidiwch â:**

- Defnyddio llusern sydd wedi'i difrodi.
- Lansio llusernau mewn ardaloedd trefol.
- Lansio llusernau mewn ardaloedd sy'n cynnwys anifeiliaid neu gnydau.
- Lansio llusern ger ffordd neu briffordd gyhoeddus, yn enwedig prif ffyrdd a thraffyrdd.
- Lansio llusern os yw'r gwynt yn gryfach nag awel haf ysgafn.




**Peidiwch byth â lansio llusernau gerllaw coed neu wifrau trydan**




**Gwiriwch gyfeiriad y gwynt a'i gyflymder cyn eu lansio**